

Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed Ysgubor y Coed Community Council

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mai 2016

2016/1. Presennol: Cynghorwyr Swanson (yn y gadair), Goodman, Griffiths a Thomas; Cynghorydd Sir ap Gwynn. Bu'r clerc yn gweinyddu. Hefyd yn bresennol: Dr Ian Taylor.

2. Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Hustings a Toland.

3. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol: Derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 9 Mawrth 2016 ac 2 Mai 2016.

4. Datganiadau o ddiddordeb:

Dim

5. Materion yn codi:

i. Nodwyd llythyr gan y Gweinidog. Cafwyd cyflwyniad gan Dr Ian Taylor, Transport for Quality of Life am y palmant. Trafodwyd y ffordd ymlaen. Penderfynwyd y bydd y Clerc yn cysylltu â'r Gweinidog newydd, gan gopïo Alun Williams, Elin Jones AC, Simon Thomas AC, Mark Williams AS, Cynghorydd ap Gwynn a Dr Taylor i mewn. Bydd Dr Taylor yn dylunio arwyddion dwyieithog i osod mewn ffenestri'r tai yn y gymuned yn gofyn am balmant.

Pwynt gweithredu: Clerc i ysgrifennu at y Gweinidog newydd.

ii. Nodwyd bod y RSPB yn gyfrifol os bydd damwain yn y lle chwarae yn ôl y cwmni yswiriant gan nad oes prydles gan y Cyngor. Penderfynwyd atgoffa David Anning am hyn.

Pwynt gweithredu: Clerc i ysgrifennu at David Anning.

iii. Nodwyd bod rhywun wedi cael iawndal am gwympto ar y llwybr i'r orsaf. Penderfynwyd atgoffa Mark Williams AS am fynediad i'r anabl.

Pwynt gweithredu: Clerc i ysgrifennu at Mark Williams AS.

iv. Nodwyd bod y diffibriliwr yn barod a bydd Cynghorydd Goodman yn ei osod y penwythnos yma.

v. Nodwyd bod lori sy'n perthyn i drigolion Gwelfor wedi'i pharcio yn y maes parcio ers sawl wythnos. Roedd y Cyngor hefyd wedi derbyn cwyn am y cerbydau wedi'u parcio ar ymyl y ffordd ger y fynedfa gan rwystro dau gar rhag pasio ei gilydd. Mae'n debyg eu bod yn perthyn i drigolion Furnace Lodge. Penderfynwyd adrodd y ddau fater i CADW.

Pwynt gweithredu: Clerc i ysgrifennu i CADW.

vi. Nodwyd bod Cynghorydd Goodman a Mr Merfyn Hughes yn chwilio am rywun arall i gymryd rhan yng nghynllun Cadw Llygad ar Gyflymder yn y Gymuned. Bydd y Clerc yn rhoi rhif ffôn yr heddwys sy'n rhedeg y cynllun i Gynghorydd Goodman.

vii. Adroddwyd bod y Clerc wedi gwneud cais am fanc gwydr arall. Nodwyd bod y gwasanaeth casglu gwastraff swmpus ym Machynlleth yn dod i ben.

6. Cyllid:

i. Penderfynwyd ystyried cais gan Gymorth Canser Macmillan am gymorth ariannol yn y cyfarfod ym mis Ionawr 2017.

ii. Penderfynwyd gwneud y taliad canlynol: £115.18 (costau'r clerc)

iii. Nodwyd bod y taliadau canlynol wedi'u gwneud: £682.08 (Jewson), £212.42 (Jewson).

- iv. Nodwyd bod y taliadau canlynol wedi'u derbyn: £3200 (archebiant), £150 (CADW)
- v. Penderfynwyd cael dyfynbris gan Zurich a Staysure ar gyfer yr yswiriant.
- vi. Nodwyd y byddai'n rhaid cwrdd cyn 30 Mehefin 2016 er mwyn derbyn y ffurflen flynyddol ar gyfer yr archwiliad.

7. Gohebiaeth a Chyfathrebu:

- i. Derbyniwyd y dogfennau canlynol gan Gyngor Sir Ceredigion:
 - a. Bwriad i ddiwygio Gorchymyn Cyngor Sir Ceredigion (Mannau Parcio oddi ar y Stryd): nodwyd.
 - b. Gwasanaeth opsiynau tai newydd: nodwyd.
 - c. Gweithdy cyfleoedd chwarae: byddai'n well ei gynnal gyda'r nos.
- ii. Nodwyd gohebiaeth gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda.
- iii. Bydd Cynghorydd Goodman yn darllen cylchlythyr SARPA.
- iv. Nodwyd *Clerk and Councils Direct* (Mai 2016).
- v. Nodwyd Chwarae dros Gymru (gwanwyn 2016).
- vi. Nodwyd *The Clerk* (Mai 2016)
- vii. Nodwyd Cynhadledd Planning Aid Wales.

8. Cynllunio:

- i. APP/T6850/A/16/3146117: Penderfynwyd gofyn am gopi o'r penderfyniad ar yr apêl.

9. Unrhyw Fater Arall:

- i) Nodwyd bod llwyni/glaswellt yn tyfu dros y palmentydd rhwng y Garth a Ffwrnais ac yng Nglandyfi. Bydd angen adrodd hyn i'r Cyngor Sir.
- ii) Nodwyd bod angen atgoffa'r Gweinidog am y ffynnon sy'n dal heb ei thrwsio.

10. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 13 Gorffennaf 2016